



100
1922 - 2022

Swyddfa'r Urdd
Ysgol Uwchradd Bodedern
Bodedern
Ynys Môn
LL65 3SU

13 Medi 2021

Annwyl Arweinydd,

PARTHED: GWAITH YR URDD YN RHANBARTH Ynys Môn

Ysgrifennaf atoch ar ran Urdd Gobaith Cymru.

Gobeithiaf yn fawr y cawsoch wyliau da a chyfle i ymlacio.

Unwaith eto eleni mae gan Yr Urdd flwyddyn yn llawn gweithgareddau hwyliog i'ch disgyblion. Mae gennym amrywiaeth o weithgareddau sy'n addas ar gyfer plant a phobl ifanc.

Fel rydych yn ymwybodol, yn sgil COVID 19 rydym fel mudiad wedi gorfod addasu a newid ein ffordd o weithio, felly mae'r drefn wedi newid ychydig eleni.

Aelodaeth

Cost aelodaeth am eleni yw £10.00 y pen a £1 y pen i blant sy'n derbyn cinio Ysgol am ddim. Mae modd ymaelodi drwy Y PORTH, system ar-lein newydd Yr Urdd [Ymuno | Urdd Gobaith Cymru](#). Gofynnwn yn garedig i bawb ymaelodi cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda er mwyn cael cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd. Bydd dim modd ymaelodi drwy eich swyddog lleol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud ag Aelodaeth bydd angen i chi e-bostio - aelodaeth@urdd.org.

CHWARAEON

Eich Swyddog Datblygu Chwaraeon lleol fydd yn gyfrifol am drefnu a chynnal holl gystadlaethau Chwaraeon y Rhanbarth o hyn ymlaen. Eich swyddog lleol chi yw Rhodd Alaw. Mae croeso i chi gysylltu gyda Rhodd drwy e-bost rhoddalaw@urdd.org

EISTEDDFOD

Bydd Rhestr Testunau 2022 ar gael ar wefan yr Urdd www.urdd.cymru ar y 27ain o Fedi. Rydym wir yn gobeithio y bydd modd i ni gynnal yr Eisteddfodau Cylch a Sir eleni. Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr Eisteddfodau Cylch a Sir yn Rhanbarth Ynys Môn neu os hoffech ymuno gyda'r Pwyllgor Cylch neu Sir.

CYFNODAU PRESWYL

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am deithiau preswyl i Wersylloedd yr Urdd boed yn daith i Langrannog, Glan-Ilyn neu Caerdydd bydd angen i chi gysylltu yn uniongyrchol gyda'r Gwersylloedd drwy e-bostio:-

Llangrannog - llangrannog@urdd.org



Glan-llyn - glan-llyn@urdd.org
Caerdydd - caerdydd@urdd.org



Celfyddydau Cymunedol

Rydym yn gyffrous iawn ei bod fel Rhanbarth am ddechrau cynnig cyfleoedd celfyddydol i blant a phobl ifanc yr ardal. Byddwn yn cynnig clybiau wythnosol, teithiau preswyl, gweithgareddau gwyliau a llawer mwy. Byddaf yn rhannu mwy o wybodaeth gyda chi'n fuan.

Adrannau / Aelwydydd

Os ydych yn rhedeg Adran neu Aelwyd, mae croeso i chi gysylltu â mi er mwyn trefnu ymweliad. Rwy'n gobeithio ymweld a chynnal gweithgaredd ar gyfer pob Adran / Aelwydydd unwaith y tymor.

Fforwm Ieuentid

Byddwn yn ail-ddechrau ein fforwm ieuentid ar y 23/09/21 rhwng 5yh -6:30yh. Os ydych yn adnabod unrhyw fyddai'n hoffi bod yn aelod cysylltwch â mi.

Dathlu 100

Mae eleni am fod yn flwyddyn hynod gyffrous i ni fel mudiad gan ein bod yn dathlu ein canmlwyddiant. Bydd llwyth o weithgareddau yn cael eu cynnal drwy'r flwyddyn er mwyn dathlu. Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth yn fuan.

Swyddog Ieuentid –

Mae Osian Rhys yn gweithio fel Swyddog Ieuentid yn yr ardal. Os hoffech i Osian ddod mewn i'r Ysgol e-bostiwrch osianrhys@urdd.org

Prosiectau Rhyngwladol

Rydym fel mudiad gyda nifer o brosiectau Cenedlaethol cyffrous iawn. Gweler wedi ei atodi gyda'r llythyr yma, daflen yn hyrwyddo cyfle i fod yn rhan o daith Côr yr Urdd i Alabama.

Cofiwch fynd i edrych ar dudalennau Urdd Ynys Môn ar Facebook a Twitter - yma ceir wybodaeth am ein holl weithgareddau yn yr ardal.

Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at gyd-weithio gyda chi. Rydym ar gael i ddod i helpu sefydlu adran newydd, trafod syniadau gweithgareddau celfyddydol a'ch cynorthwyo gyda pharatoi ar gyfer cystadlu yn yr Eisteddfod.

Gobeithio bydd yr uchod o help ac os oes angen cymorth arnoch mewn unrhyw ffordd, cofiwch gysylltu â mi.

Diolch a chofion

Mari Wyn Williams

Urdd Gobaith Cymru

Swyddog Rhanbarthol Y Celfyddydau a Gwersylloedd



Urdd

